Cystadlaethau Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf Rithiol 2020

Ffotograffiaeth – Blodyn neu Flodau

Coginio - Cacen/Teisen wedi addurno

Fideo – Cynefin (dim mwy na 3 munud o hyd)

Crefft – Enfys unrhyw gyfrwng neu eitem yn cynnwys lliwiau'r enfys

Blodau - Gosodiad o flodau neu wyrddni ar gyfer y bwrdd – gellir defnyddio ychwanegiadau neu flodau nad ydynt yn ffres.

Gan mai Gŵyl Rithiol ydyw hon – gofynnir i chi ddanfon llun yn unig atom ar e-bost neu bostio llun ymlaen os nad oes gennych dechnoleg – (nid oes angen danfon yr eitem/cynnych)

Gofynnir i chi e-bostio angharad@merchedywawr.com gyda'r pennawd Ffair Aeaf, neu postio'r lluniau at Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH cyn 20fed o Dachwedd 2020.

Gofynnir i chi nodi eich enw, eich cangen/clwb neu eich bod yn aelod unigol a hefyd pa ranbarth yr ydych yn perthyn iddi.

Caniateir dwy ymgais ym mhob un cystadleuaeth gan bob unigolyn sef cyfanswm o 10 eitem

Fe fydd yr eitemau yn cael eu beirniadu yn rhithiol a byddwn yn dangos yr eitemau ar ein cyfryngau cymdeithasol e.e. tudalen gweplyfr/Facebook. Ein tudalen gwe, instagram ayyb

Os hoffech ymaelodi mewn cangen/clwb neu fel aelod unigol cysylltwch gyda'r swyddfa.